Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

Noddir gan **Llywodraeth Cymru**
Sponsored by **Welsh Government**

# **Gofynion cwrs penodol a enwir:** Dysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol

## Manylion cyswllt

**Gofal Cymdeithasol Cymru**
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@
gofalcymdeithasol.cymru

gofalcymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol

© 2020 Gofal Cymdeithasol Cymru
Cedwir pob hawl. Ni cheir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn na'i gadw mewn system adferadwy na'i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylai ymholiadau am atgynhyrchu y tu hwnt i'r hyn a ganiateir yn benodol gan y gyfraith gael eu hanfon at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

**Fformatau eraill:**
Mae'r ddogfen hon ar gael mewn fformat hawdd ei ddeall, print bras a fformatau eraill, os oes angen.

Mae copïau ar gael yn Saesneg hefyd.

## Cynnwys


**Cyflwyniad**....................4

**Rheoliadau**....................6

**Gofynion ar gyfer rhaglen mewn dysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol**....................7

1. Credydau a lefel....................7

2. Dethol ymgeiswyr....................7

3. Canlyniadau dysgu i'w harddangos gan ymgeiswyr....................7

4. Canlyniadau o ran sgiliau....................8

5. Prosesau asesu'r cwrs....................10

# Cyflwyniad

Fel rheoleiddiwr proffesiynol addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol, rydym yn gyfrifol am osod y safonau ar gyfer hyfforddiant gwaith cymdeithasol ar lefelau cymhwyso ac ôl-gymhwyso. Rydym eisiau sicrhau bod gweithwyr cymdeithasol yng Nghymru wedi'u hyfforddi i safon uchel a chyson, a'u bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau perthnasol i ymarfer yn ddiogel ac yn effeithiol.

Mae *Rheolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiau Ôl-gymhwyso ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018* yn darparu'r gofynion a'r meini prawf ar gyfer cymeradwyo a rheoleiddio addysg a hyfforddiant ôl-gymhwyso. Mae'r Rheolau hefyd yn ein galluogi i osod gofynion cwrs penodol a enwir ar gyfer rhaglenni dysgu cenedlaethol. Gall hyn gynnwys nodi canlyniadau dysgu penodol, lefel a maint credydau, a/ neu ddulliau asesu. Mae angen i raglenni fodloni'r gofynion cwrs penodol hyn, yn ogystal â'r gofynion cyffredinol ar gyfer cymeradwyo.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r gofynion penodol y bydd yn rhaid i ddarparwyr rhaglenni eu bodloni er mwyn cael eu cymeradwyo gennym i gynnig hyfforddiant ar gyfer addysgwyr ymarfer sy'n gweithio gyda myfyrwyr gwaith cymdeithasol. Mae dysgu ymarfer yn ganolog i ddarpariaeth y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n galluogi myfyrwyr i ddatblygu eu gwerthoedd, eu sgiliau a'u gwybodaeth mewn ystod o leoliadau. Rhaid i raglenni gradd mewn gwaith cymdeithasol sicrhau bod pob myfyriwr yn cael ei asesu, ym mhob cyfnod ymarfer, gan weithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol sy'n addysgwr ymarfer cymwys neu'n hyfforddi i fod yn un[1].

Mae gan addysgwyr ymarfer ystod o gyfrifoldebau wrth weithio gyda myfyrwyr – gan gynnwys hyrwyddo dysgu, addysgu, asesu, a rheoli'r lleoliad ymarfer. Mae ganddyn nhw rôl allweddol wrth benderfynu a oes gan fyfyrwyr y sgiliau a'r wybodaeth ddigonol i ddod yn weithwyr cymdeithasol proffesiynol. Mae effeithiolrwydd eu penderfyniadau yn cyfrannu at weithlu medrus o ansawdd uchel y gall pobl fod â hyder ynddo.

Fel rhan o'n hymrwymiad i sicrhau safonau mewn gwaith cymdeithasol, a'n cyfrifoldeb dros wneud hynny, rydym wedi penderfynu y dylid cael cwrs penodol a enwir sy'n canolbwyntio ar ddysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Mae'r gofynion hyn yn sicrhau bod rhaglenni:

- yn paratoi gweithwyr cymdeithasol cymwys a phrofiadol fel y gallant gyflawni rôl addysgwr ymarfer yn unol â'r disgwyliadau a nodir yn y Rheolau ar gyfer y radd mewn gwaith cymdeithasol a'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*

- yn paratoi'r sawl sy'n cyflawni rôl heriol addysgwr ymarfer â'r wybodaeth a'r sgiliau priodol fel y gallant gyfrannu at ddysgu'r myfyriwr mewn ffordd gynlluniedig ac effeithiol, a llunio barn gadarn am eu cymhwysedd mewn gwaith cymdeithasol.

Rydym yn cydnabod, ochr yn ochr â'r gofynion hyn, bod angen hyblygrwydd wrth i drefniadau, rolau a llwybrau gyrfa sy'n ymwneud â dysgu ymarfer ac asesu barhau i esblygu.

1. *Y Fframwaith ar gyfer y Radd mewn Gwaith Cymdeithasol yng Nghymru: Canllawiau Atodol,* Gofal Cymdeithasol Cymru, 2018 *(7:9)*

## Gwerthoedd

Mae holl ofynion y cwrs penodol a enwir a ddatblygwyd gennym yn adeiladu ar y gwerthoedd sydd wedi'u hymgorffori yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol*.

Mae'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol yn nodi'r **gwerthoedd a'r foeseg** y mae'n rhaid i weithwyr cymdeithasol a myfyrwyr gwaith cymdeithasol eu datblygu, eu cymhwyso a'u harddangos:

- ymwybyddiaeth o'ch gwerthoedd, rhagfarnau, cyfyng gyngor moesegol a gwrthdaro buddiannau, a'u goblygiadau o ran eich ymarfer
- parchu a hyrwyddo:
  - pob person fel unigolyn
  - annibyniaeth ac ansawdd bywyd ar gyfer unigolion, gan eu diogelu rhag niwed ar yr un pryd
  - urddas a phreifatrwydd unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- cydnabod a chefnogi defnydd pob person o ran eu dewis iaith a ffordd o gyfathrebu
- gwerthfawrogi, cydnabod a pharchu amrywiaeth, arbenigedd a phrofiad unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau
- cynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion, teuluoedd, gofalwyr, grwpiau a chymunedau trwy gyfathrebu mewn ffordd agored, gywir a dealladwy
- deall a defnyddio strategaethau i herio gwahaniaethu, anfantais a mathau eraill o anghydraddoldeb ac anghyfiawnder.

Mae'r *Côd Ymarfer Proffesiynol Gofal Cymdeithasol* yn nodi bod rhaid i weithwyr gofal cymdeithasol:

1. Barchu barn a dymuniadau unigolion a gofalwyr, a hyrwyddo eu hawliau a'u buddiannau
2. Ymdrechu i sefydlu a chynnal ymddiriedaeth a hyder unigolion a gofalwyr
3. Hyrwyddo llesiant, llais a rheolaeth unigolion a gofalwyr a'u cefnogi i gadw'n ddiogel ar yr un pryd
4. Parchu hawliau unigolion, gan geisio sicrhau ar yr un pryd nad yw eu hymddygiad yn eu niweidio hwythau neu bobl eraill
5. Gweithredu gydag uniondeb a chynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd yn y proffesiwn gofal cymdeithasol
6. Bod yn atebol am ansawdd eich gwaith a chymryd cyfrifoldeb dros gynnal a datblygu gwybodaeth a sgiliau
7. Yn ogystal ag adrannau 1 i 6, os ydych chi'n gyfrifol am reoli neu arwain staff, rhaid i chi wneud y Côd yn rhan annatod o'u gwaith.

Rhaid i raglenni sy'n dymuno datblygu cwrs mewn dysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol gynnal hefyd yr egwyddorion a nodir yn y *Safonau dysgu ymarfer* a'r *Safonau ar gyfer cynnwys pobl sydd angen gofal neu gymorth a gofalwyr, yn y radd mewn gwaith cymdeithasol yng Nghymru*[2].

Mae'r rhain fel a ganlyn:

- dull partneriaeth o ran pob agwedd ar ddysgu ymarfer
- gwerthoedd penodol gan gynnwys ymrwymiad i ymarfer gwrth-ormesol, cyfle cyfartal a'r Gymraeg
- agwedd greadigol tuag at ddatblygu, gweithredu a chynnal cyfleoedd dysgu ymarfer i fodloni anghenion newidiol pobl sydd angen gofal a chymorth, gofalwyr a myfyrwyr
- cydnabod amrywiaeth o ran anghenion myfyrwyr, gan sicrhau cyfiawnder ar yr un pryd
- cynnwys pobl sydd angen gofal neu gymorth a gofalwyr fel rhan hanfodol o ddysgu ymarfer.

Rhaid i raglenni dysgu ac asesu ymgeiswyr fod yn seiliedig ar sylfaen werthoedd gwaith cymdeithasol a chael eu llywio gan hyn.

2. Mae'r safonau ar gael ar y dudalen we ar reoleiddio addysg a hyfforddiant gwaith cymdeithasol

# Rheoliadau

1. Rhaid i geisiadau ar gyfer darparu rhaglen dysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol yng Nghymru gael eu gwneud yn ysgrifenedig, mewn fformat a ddarperir gan Ofal Cymdeithasol Cymru

2. Gall y dyfarniad gael ei ddarparu gan un neu fwy o sefydliadau addysg uwch (SAU) yn unig

3. Rhaid i ddarparwr y rhaglen ddangos, trwy gytundebau partneriaeth wedi'u llofnodi, bod y dyfarniad wedi'i ddatblygu gydag o leiaf un cyflogwr sy'n cyflogi gweithwyr cymdeithasol ac a fydd yn cefnogi'r rhaglen

4. Rhaid i ddarparwr y rhaglen gynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth, a gofalwyr, wrth ddatblygu a darparu'r rhaglen

5. Rhaid i ddarparwr y rhaglen fodloni'r holl ofynion cyffredinol ar gyfer cymeradwyo'r dyfarniad o dan *Reolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiau Ôl-gymhwyso ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018*

6. Bernir bod darparwr sydd eisoes wedi'i gymeradwyo i gynnig modiwlau ôl-gymhwyso wedi bodloni'r gofynion hynny at ddibenion y dyfarniad penodol a enwir hwn. Os yw mwy nag un sefydliad yn ymwneud â chais, bydd angen i bob darparwr ddangos eu bod yn bodloni'r holl ofynion, neu eu bod wedi'u cymeradwyo eisoes fel rhai sy'n bodloni'r holl ofynion

7. Bydd y darparwr, os caiff ei gymeradwyo, yn ddarostyngedig i ofynion sicrhau ansawdd Gofal Cymdeithasol Cymru a nodir yn *Rheolau Cymeradwyo ac Archwilio Cyrsiau Ôl-gymhwyso ar gyfer Gweithwyr Cymdeithasol (Cymru) 2018*.

# Gofynion ar gyfer rhaglen dysgu ymarfer ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol

## 1. Credydau a lefel

Bydd y dyfarniad yn werth o leiaf 20 credyd ac fe'i hastudir ar lefel 6/7 Fframwaith Credydau a Chymwysterau Cymru (lefel ôl-raddedig).

## 2. Dethol ymgeiswyr

Rhaid i raglenni fod â gweithdrefnau dethol wedi'u dogfennu sy'n cefnogi cyfle cyfartal. Rhaid i'r ymgeiswyr a ddewisir ddangos eu bod:

- wedi'u cofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru, Gwaith Cymdeithasol Lloegr, Cyngor Gwasanaethau Cymdeithasol yr Alban neu Gyngor Gofal Cymdeithasol Gogledd Iwerddon (rhaid iddynt aros ar y gofrestr i gael y credydau a briodolir)
- yn meddu ar gymhwyster gwaith cymdeithasol cydnabyddedig
- ag o leiaf dwy flynedd o brofiad ôl-gymhwyso (neu gyfwerth ag amser llawn)
- â gwybodaeth a phrofiad digonol ar gyfer math a lefel y rhaglen, ac mae'r rhaglen yn berthnasol i'w datblygiad gyrfa fel y'i diffinnir yn eu cynllun datblygu personol
- â chytundeb a chefnogaeth eu cyflogwr i gymryd rhan ym mhob agwedd ar y rhaglen
- wedi cytuno i ddarparu dysgu ymarfer ac asesu ar gyfer myfyriwr gwaith cymdeithasol er mwyn cwblhau'r cwrs.

## 3. Canlyniadau dysgu i'w dangos gan ymgeiswyr

Wrth ddangos sut maen nhw wedi cyflawni'r canlyniadau dysgu, rhaid i ymgeiswyr gynnwys tystiolaeth o'r ffordd, yn rhinwedd eu swydd fel addysgwr ymarfer:

- maen nhw'n defnyddio arfarniad beirniadol o ymchwil fel sylfaen ar gyfer eu hymarfer
- maen nhw wedi cynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth neu ofalwyr yn eu hymarfer, a'r ffordd maen nhw wedi ymateb i'r arbenigedd hwnnw
- mae eu gwaith wedi'i lywio gan ddealltwriaeth o weithio rhyngddisgyblaethol a rhyngasiantaethol effeithiol
- maen nhw'n gweithio yn unol â gwerthoedd a moeseg gwaith cymdeithasol a nodir yn y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer Gwaith Cymdeithasol a'r *Côd Ymarfer Proffesiynol* wrth addysgu ac asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol.

Ar ôl cwblhau'r rhaglen, rhaid i ymgeiswyr ddangos eu gallu i ddewis a defnyddio ystod o sgiliau, technegau ac arferion i alluogi myfyrwyr gwaith cymdeithasol i ddysgu ac asesu eu cymhwysedd.

Bydd angen i ddarparwyr cyrsiau fynegi sut maen nhw'n dangos gwerthoedd, sgiliau ac egwyddorion gwaith cymdeithasol yng nghynnwys eu rhaglen, y modelau cyflwyno a'r prosesau asesu.

## 4. Canlyniadau o ran sgiliau

Mae'r rhain wedi'u gosod mewn grwpiau o dan bum pennawd ac maent yn ffurfio sgiliau craidd dysgu ymarfer ac asesu:

**a. Dangos ac integreiddio'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol ar gyfer gwaith cymdeithasol a'r Côd Ymarfer Proffesiynol ym mhob agwedd ar ddysgu ymarfer ac asesu**

- gwneud cysylltiadau effeithiol a pharhaus rhwng y Côd Ymarfer Proffesiynol, y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, a'r disgwyliadau ar gyfer myfyrwyr gwaith cymdeithasol ac aseswyr ymarfer
- gosod a hyrwyddo addysgu ymarfer, dysgu ymarfer ac asesu yng nghyd-destun Cymru, gan gynnwys ymarfer sy'n sensitif i iaith
- modelu ac archwilio sut i weithio'n gadarnhaol â gwahaniaethau ac amrywiaeth yng nghyd-destun gwaith cymdeithasol a gweithio rhyngddisgyblaethol
- dangos tegwch a chyfiawnder wrth ddysgu ymarfer ac asesu cymhwysedd.

**b. Rheoli'r trefniadau dysgu ymarfer**

- datblygu a gweithredu adolygiad effeithiol o'r cytundeb gwaith â'r myfyriwr ac eraill sy'n cyfrannu at y cyfleoedd dysgu ac asesu
- cynllunio, trefnu a sicrhau bod cyfleoedd dysgu priodol yn cael eu darparu fel y gall y myfyriwr ddatblygu a dangos eu cymhwysedd yn gynyddol
- negodi argaeledd adnoddau angenrheidiol a pherthnasoedd gwaith ar gyfer cyfle dysgu ymarfer y myfyriwr
- rheoli a sicrhau bod ymarfer y myfyriwr yn ddiogel ac yn bodloni disgwyliadau'r Côd Ymarfer Proffesiynol a'r asiantaeth.

**c. Galluogi dysgu a datblygiad proffesiynol y myfyriwr gwaith cymdeithasol yn ymarferol**

- gweithio mewn partneriaeth i nodi anghenion dysgu'r myfyriwr gan ddefnyddio ystod o ddulliau damcaniaethol ac ymarferol
- dewis a defnyddio strategaethau addysgu a dysgu priodol i gefnogi gallu'r myfyriwr i gyfuno profiadau academaidd, theori, ymchwil, myfyrio beirniadol ac ymarfer
- darparu goruchwyliaeth reolaidd a gynlluniwyd, gan ddefnyddio modelau dysgu oedolion, theorïau goruchwylio a pholisi goruchwylio'r asiantaeth i hyrwyddo datblygiad proffesiynol y myfyriwr
- galluogi'r myfyriwr i ddatblygu ymwybyddiaeth feirniadol o oblygiadau deddfwriaeth a pholisi o fewn cyd-destun y cyfle dysgu ymarfer
- chwilio am a rhannu gwybodaeth ac ymchwil gyfredol â'r myfyriwr ar ymarfer gorau perthnasol mewn gwaith cymdeithasol
- defnyddio dulliau gwrth-wahaniaethol a gwrth-ormesol i weithio mewn ffordd sy'n cydnabod ac yn mynd i'r afael â gwahaniaethau o ran pŵer mewn sefyllfaoedd dysgu, yn enwedig o ran goruchwylio ac asesu
- sefydlu perthynas waith effeithiol â'r myfyriwr, a'r rhaglen radd, a phobl sydd angen gofal neu gymorth a gofalwyr sy'n cyfrannu at ddatblygiad proffesiynol y myfyriwr
- hwyluso dysgu a gweithio rhyngbroffesiynol y myfyriwr.

### d. Asesu myfyrwyr gwaith cymdeithasol yn ymarferol

- datblygu a gweithredu cynllun ar gyfer asesu'r myfyriwr sy'n briodol, yn ddatblygiadol ac yn deg
- defnyddio ystod o offer asesu y cytunwyd arnynt, gan gynnwys arsylwi uniongyrchol i gael gwybodaeth am alluoedd y myfyriwr, a sut mae'r myfyriwr yn cymhwyso'r gwerthoedd a'r wybodaeth yn eu gwaith
- cynnal a darparu asesiadau ffurfiannol adeiladol ar lafar ac yn ysgrifenedig i'r myfyriwr mewn perthynas â'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, y disgwyliadau o ran y radd, a dysgu ac ymarfer y myfyriwr
- gweithio gyda phobl sydd angen gofal neu gymorth, gofalwyr a chydweithwyr i gael adborth, a'i ddefnyddio i lywio'r strategaeth ddysgu ac asesu ar gyfer y myfyriwr
- darparu asesiad a barn grynodol ar sail tystiolaeth ar y graddau y mae'r myfyriwr wedi bodloni'r Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, y Côd Ymarfer Proffesiynol a lefel ofynnol y radd.

### e. Myfyrio'n feirniadol ar eich profiad o ddysgu ymarfer ac asesu

- gwerthuso'n feirniadol eich gallu i fodelu sut i integreiddio gwerthoedd, polisi a deddfwriaeth gwaith cymdeithasol yn ymarferol
- dadansoddi a gwerthuso'n feirniadol eich gallu i gymhwyso'ch dealltwriaeth o'r radd mewn gwaith cymdeithasol a rôl yr asesydd ymarfer yn y lleoliad gwaith, a datblygiadau polisi yng Nghymru
- dangos ymwybyddiaeth feirniadol o oblygiadau gweithio o safbwynt gwrth-wahaniaethol a gwrth-ormesol yng nghyd-destun Cymru wrth gyflawni rôl addysgwr ymarfer
- dadansoddi sut y byddwch yn defnyddio adborth gan y myfyriwr ac eraill i ddatblygu eich rôl fel addysgwr ymarfer
- myfyrio ar ba mor effeithiol rydych wedi ymateb i'r cyfleoedd a'r heriau a gyflwynwyd gan y myfyriwr
- dadansoddi i ba raddau rydych wedi gallu cyfuno agweddau gwahanol y rôl yn effeithiol fel addysgwr/galluogwr/asesydd.

### Gwybodaeth sy'n sail i ganlyniadau dysgu

Dylai rhaglenni alluogi ymgeiswyr i ddefnyddio'r meysydd gwybodaeth hyn fel sail i'w hymarfer fel addysgwr ymarfer ac mewn myfyrio beirniadol:

- y Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol, gofynion y radd, y Côd Ymarfer Proffesiynol, y Datganiadau Meincnod ar gyfer Gwaith Cymdeithasol, y safonau ar gyfer dysgu ymarfer a'r safonau ar gyfer cynnwys pobl sydd angen gofal neu gymorth a gofalwyr yn y radd mewn gwaith cymdeithasol
- damcaniaethau a modelau dysgu oedolion a dulliau gwahanol o addysgu
- modelau goruchwylio a'u defnydd â myfyrwyr gwaith cymdeithasol
- damcaniaethau yn ymwneud â phŵer, tystiolaeth ymchwil ar wahaniaethau o ran pŵer, a'r defnydd priodol o awdurdod ac atebolrwydd wrth weithio gyda dysgwyr
- ymchwil/ymarfer gorau o ran cynnwys pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr wrth weithio gyda myfyrwyr gwaith cymdeithasol, a gweld pobl sydd angen gofal a chymorth a gofalwyr fel arbenigwyr oherwydd eu profiad
- damcaniaethau a modelau gwaith cymdeithasol ac ymarfer myfyriol
- egwyddorion tegwch a chyfiawnder, gwrthrychedd a goddrychedd wrth asesu, syniadau am ddatblygiad a chymhwysedd, a'r hyn sy'n "ddigon da"
- dealltwriaeth feirniadol o gyfyng gyngor proffesiynol, moesegol a gwleidyddol wrth weithio mewn proffesiwn a gaiff ei herio, megis gwaith cymdeithasol.

## 5. Prosesau asesu'r cwrs

- Gellir defnyddio ystod o ddulliau asesu
- Mae dulliau asesu'n gallu asesu nifer o ganlyniadau dysgu ar yr un pryd
- Rhaid iddynt fod yn briodol i'r canlyniad/canlyniadau dysgu sy'n cael eu hasesu ac yn uniongyrchol berthnasol i ymarfer fel addysgwr ymarfer
- Rhaid i ymarfer yr ymgeisydd fel addysgwr ymarfer gael ei arsylwi'n uniongyrchol ddwywaith mewn sesiynau goruchwylio a ddarperir i'r myfyriwr gwaith cymdeithasol a gwneir asesiad o gymhwysedd yr ymgeisydd fel addysgwr ymarfer
- Rhaid i'r arsylwadau hyn gael eu gwneud gan berson dynodedig sy'n weithiwr cymdeithasol cymwys a phrofiadol sydd â phrofiad ac arbenigedd o ran asesu ac sy'n deall sgiliau craidd dysgu ymarfer a datblygiad
- Dylai aseswyr sy'n siarad Cymraeg fod ar gael fel y'u nodwyd ar yr adeg y gwnaed y trefniadau asesu
- Dylid egluro rôl a chyfrifoldebau asesydd yr ymgeisydd
- Rhaid i'r ymgeisydd lunio portffolio dienw priodol, ac mae'n rhaid iddo gynnwys:
    - tystiolaeth bod yr holl ganlyniadau dysgu wedi'u dangos
    - tystiolaeth o'u gallu i gyflawni'r tasgau sy'n ofynnol gan y rhaglen radd i safon foddhaol
    - adroddiad(au) beirniadol sy'n seiliedig ar theori, o'u gallu i fyfyrio ar eu datblygiad a'r ffordd y maent wedi cymhwyso eu dysgu yn rôl a chyfrifoldebau addysgwr ymarfer
    - adroddiad ar gymhwysedd yr ymgeisydd fel addysgwr ymarfer, sy'n seiliedig ar arsylwi uniongyrchol ac adborth gan y myfyriwr ac eraill.